Urdd

# Adroddiad Blynyddol 2017-18

## Urdd Gobaith Cymru














# Cynnwys


Cipolwg ar eleni 4

Adroddiad y Cadeirydd 6

Adroddiad y Prif Weithredwr 7

Adroddiad y Llywydd 8

Astudiaeth Achos 1 - Rowan Sweeting 9

Gweithgareddau Cymunedol 10

Cyfathrebu a Datblygu 10

Eisteddfod a'r Celfyddydau 11

Chwaraeon 11

Astudiaeth Achos 2 - Manon Ogwen Parry 12

Astudiaeth Achos 3 - Jac Perkins 13

Gwersyll Glan-llyn 14

Gwersyll Caerdydd 14

Gwersyll Llangrannog 15

Astudiaeth Achos 4 - Ysgol Pen-y-Dre 16

Astudiaeth Achos 5 – Mared Edwards 17

Adroddiad y Trysorydd 18

Noddwyr a Phartneriaid 19

Ffynonellau Incwm Allanol 20

Gwybodaeth Ariannol 22

## Trosiant o £10.2 miliwn

## 305 aelod o staff

## 53,385 o aelodau

## Dros 85,000 wedi ymweld â Eisteddfod yr Urdd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái

## Dros 11,000 o blant yn mynychu clybiau wythnosol yr adran chwaraeon

## Dros 47,000 wedi ymweld â Gwersylloedd yr Urdd

## Dros 10,000 o wirfoddolwyr

## Tudalennau/cyfrifon yr Urdd yn y cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu dilyn/hoffi dros 63,000 o weithiau




## Amdanom ni

Mae Urdd Gobaith Cymru yn Gorff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol sydd â dros 53,000 o aelodau rhwng 8 a 25 mlwydd oed. Darperir cyfleoedd i blant a phobl ifanc Cymru fwynhau profiadau chwaraeon, diwylliannol, cymunedol a phreswyl drwy gyfrwng y Gymraeg, fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned. Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o ferched a dynion ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru. Erbyn hyn, mae dros 4 miliwn o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o'r Urdd ers ei sefydlu yn 1922. Nid oes modd gor-bwysleisio pwysigrwydd y sefydliad yng Nghymru. Mae ei gyfraniad i genedlaethau yng Nghymru, i fywydau, hyder ac iechyd meddwl ein pobl ifanc dros y blynyddoedd, wedi bod yn anferth.











# Adroddiad y Cadeirydd
## Dyfrig Davies



**Cofnod o weithgaredd blwyddyn a fu yw'r Adroddiad Blynyddol a chyfle i bwyso a mesur gan ddysgu o unrhyw gamgymeriadau ac adeiladu ar lwyddiannau. Do fe fu'n flwyddyn lwyddiannus iawn i'r Mudiad gyda'n digwyddiadau ym maes chwaraeon, celfyddydau a diwylliant yn dangos cynnydd. Bu'n flwyddyn o gydweithio gyda'n partneriaid a bu'r cynllun prentisiaeth yn un hynod o lwyddiannus. Diolch i'r partneriaid, i'n noddwyr a'n cyfeillion oll gan gynnwys wrth gwrs Llywodraeth Cymru.**

Cynnig cyfleon mae'r Urdd yn ei wneud a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n parodrwydd i gydweithio gyda sefydliadau, awdurdodau a mudiadau eraill yn un sy'n cael ei gydnabod. Down â phrofiad, mentergarwch ac aelodaeth gref, a hefyd, heb unrhwy ymddiheuriad, ein gallu i hyrwyddo'n hiaith a'n diwylliant. Dyna sy'n ein gwneud yn unigryw, a dyna sy'n gyffredin i bob un o weithwyr yr Urdd a'n cefnogwyr. Yr ydym felly'n cymryd o ddifri yr her a osodwyd gan Lywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae gennym ran bwysig i'w chwarae, ac fe wnawn hynny.

Fe ymunodd Siân Lewis gyda ni fel Prif Weithredwr ar ddechrau mis Ionawr. Bu Siân yn gweithio i'r Urdd am rai blynyddoedd cyn symud ymlaen i weithio mewn meysydd eraill. Croesawn hi nôl i deulu'r Urdd ac yn barod y mae ei brwdfrydedd a'i gweledigaeth i'w deimlo. Diolch hefyd i holl staff a gwirfoddolwyr yr Urdd am eu hymroddiad a'u gwaith caled.

Mudiad i bobl ifanc yw'r Urdd a dyna pam mae rôl Bwrdd Syr IfanC yn un pwysig iawn. Diolch iddyn nhw am ymgymryd at y Neges Heddwch ac Ewyllys Da, chwarae rhan bwysig yn sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru, codi ymwybyddiaeth o anghenion iechyd meddwl a thegwch i bobl ifanc gan hyrwyddo gwell yfory i bawb. Daeth cyfnod Siwan Dafydd i ben fel llywydd a daeth Nia Wyn yn ei lle. Diolch i'r ddwy ac i holl aelodau y fforymau a'r Bwrdd am eu gwaith.

Fe fyddwn o fewn dim o dro yn dathlu canmlwyddiant y Neges Heddwch ac Ewyllys Da a hefyd can mlynedd ers i Syr Ifan ab Owen Edwards fynd ati i ddechrau sefydlu'r Urdd. Er mor braf yw edrych nôl gan gofio a chanmol y gorffennol, i ni yn yr Urdd, mae'n gyfle i edrych ymlaen, i herio'n hunain i fod yn fwy, yn well a mwy effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Diolch am eich cefnogaeth, parhawn i weithio'n galed.

# Adroddiad y Prif Weithredwr
## Siân Lewis



**Braf iawn yw cael cyflwyno fy adroddiad cyntaf fel Prif Weithredwr yr Urdd a hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i bawb am y croeso cynnes dwi wedi ei dderbyn ers cychwyn yn y rôl.**

Mae'r misoedd cyntaf wedi bod yn gyfle i ddysgu mwy am waith holl adrannau'r Urdd ynghyd â'r gwaith pwysig mae ein gwirfoddolwyr yn ei gyflawni er mwyn sicrhau bod yr Urdd yn parhau i fod yn fudiad, llwyddiannus, poblogaidd a blaengar.

Mae'n bleser cael cydweithio â staff brwdfrydig, cefnogol, cyfeillgar a chydwybodol. Heb os, mae eu hymdrechion yn sicrhau bod yr Urdd yn fudiad llwyddiannus, poblogaidd a phroffesiynol.

Ar gychwyn fy nhaith fel Prif Weithredwr, hoffwn nodi'n glir fy mlaenoriaethau dros y cyfnod nesaf.

- Datblygu gweithgareddau a phrosiectau sy'n cynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg.
- Sicrhau cysondeb gwasanaethau cenedlaethol ar draws y wlad, fel bod pawb yn medru manteisio ar gyfleoedd yr Urdd.
- Cydweithio ag aelodau, darpar aelodau a phartneriaid i ddatblygu ein gwasanaethau a chyfleoedd hamdden, diwylliannol a phrentisiaethau i oed 16+.
- Ymestyn cyfleoedd i fwy o blant a phobl ifanc gymryd rhan yn yr Eisteddfod a'r celfyddydau Cymraeg.
- Datblygu gwersylloedd yr Urdd i sicrhau eu bod yn ganolfannau o'r radd flaenaf ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.
- Sicrhau bod apêl yr Urdd ac ymwybyddiaeth o'i waith yn rhyngwladol wrth edrych ymlaen at ein dathliadau yn 100 oed yn 2022.

Mae gan yr Urdd hanes a threftadaeth falch ond fel unrhyw fudiad ieuenctid mae'n hanfodol ein bod yn ymateb i ofynion cyfredol pobl ifanc.

Rwyf am weld yr Urdd yn dod yn rhan o fywydau mwy o blant a phobl ifanc gan ymestyn at gymunedau a theuluoedd sy'n newydd i brofiad yr Urdd.

Edrychaf ymlaen at y dyfodol.

# Adroddiad y Llywydd
## Nia Hâf




**Waw. blwyddyn!**

**Mae'n rhaid i fi ddeud, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi hedfan heibio, ac wedi dysgu mwy i mi nac unrhyw brofiad arall. Dwi wedi crio ar lwyfan yr Eisteddfod sawl tro, wedi i ffrindiau gora gipio prif wobrau yn y seremonïau . Dwi 'di gweld mwy ar orsafoedd trên Cymru nac erioed o'r blaen, ac wedi gwneud mwy o oriau yng ngwersylloedd yr Urdd na mewn darlithoedd!**

Mae'r diolch mwyaf yn mynd i'r gwreiddiau cadarn mewn gwirfoddoli, a'r hyder sydd wedi deillio o hynny, a gefais gan Urdd Rhanbarth Eryri. Gyda'r agwedd a'r gefnogaeth iawn, gall gwirfoddoli yrru unrhyw berson ar daith hollol annisgwyl. Ewch i chwilio am y cyfleoedd cudd, peidiwch â bod ofn! Dwi wedi fy swyno dros y flwyddyn ddiwethaf gan ba mor aml ydw'i wedi anghofio mai gwirfoddoli ydw'i, gan 'mod i'n cael gymaint o hwyl, a chymaint o werth a gwefr o'r profiad.

Cawsom gyfarfodydd hollol galonogol o Fwrdd Syr IfanC dros y flwyddyn, a'r aelodau ffyddlon a ffrindiau newydd yn cyd-dynnu i drafod, mentro, a herio rhanbarthau eraill i gynyddu cyrhaeddiad a llwyddiant. Hwrê mawr i'r cyfarfod yn Eisteddfod yr Urdd, lle daeth o leiaf un aelod o bob rhanbarth i gynrychioli ethos a phwrpas y bwrdd - ni, ieuenctid Cymru!

Mae ffrwyth llafur gorffennol y Bwrdd, erbyn 2018, wedi cychwyn talu. Mae perlau fel y Tŷ yn Hwngari, gigiau ar draws y wlad, a chychwyn ar drafodaethau brwd am ddathliadau Canmlwyddiant yr Urdd yn sefyll allan, a gwaith fel y frwydr yn erbyn plastig, a pharhad â brwydr Siwan i dorri'r tabŵ ynglŷn ag iechyd meddwl yn glod mawr i'r rhai brwdfrydig hynny sy'n gweithio'n ddiwyd pan fo'r galw yno.

Gwirfoddolwraig mewn môr o leisiau oeddwn i, ar ddechrau'r daith hon. Mae swydd Cadeirydd Bwrdd Syr IfanC, a Llywydd ar fudiad mor gadarn â'r Urdd wedi bod yn agoriad llygad, yn sicr, ond hefyd yn agoriad i'r dychymyg. Dwi'n ymfalchïo yn yr hyn sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn, ac yn gwbl sicr y bydd fy mherthynas â'r Urdd yn parhau i fod mor felys dros y blynyddoedd i ddod.

Diolch fil i staff yr Urdd ledled y wlad am fod yn deulu cefnogol dros y flwyddyn. Ni fyddai'r mudiad ar ei thraed hebddoch.

Felly be 'da chi'n neud yn dal i ddarllen hwn? Ewch i neud y newid nesa!

Nia Hâf x



# Astudiaeth Achos 1
## Rowan Sweeting

**Pan aeth Rowan Sweeting, 18 oed o bentref Deuddwr ger Llansanffraid ym Mechain, sydd ddim yn bell o'r Glawdd Offa, i Wersyll yr Urdd Glan-llyn yn 11 oed, doedd braidd dim Cymraeg ganddi. Bellach mae hi wedi ymweld â Glan-llyn wyth gwaith, yn rhugl yn y Gymraeg ac wedi penderfynu ar yrfa mewn gweithgareddau awyr agored.**

*"Es i i Lan-llyn yn gyntaf ar gwrs dysgu Cymraeg pan ddechreuais i yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin, ac fe wnes i ddisgyn mewn cariad â'r iaith yn ogystal â'r gweithgareddau awyr agored sy'n cael eu cynnig yno. Ers hynny 'dwi wedi bod yn ddigon lwcus fel aelod o'r Urdd i fynd yno ar gyrsiau preswyl drwy'r ysgol, ac yna am ddau gyfnod o brofiad gwaith cyn swogio yno yn ystod gwersyll haf 2018."*

*"Roedd bod mewn awyrgylch anffurfiol a hwyliog yng Ngwersyll Glan-llyn wedi rhoi'r hyder i fi a fy ffrindiau ddysgu Cymraeg, ac i'w siarad. Bellach fy uchelgais yw gweithio mewn canolfan awyr agored yn dysgu gweithgareddau i blant a phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg."*

Wedi gadael Ysgol Uwchradd Llanfyllin aeth ymlaen i Goleg Walford, ac ar hyn o bryd mae Rowan ar ei blwyddyn olaf ar gwrs BTEC Chwaraeon Antur yng Ngholeg Reaseheath yn Nantwich. Ymysg ei diddordebau mae dringo, canŵio a caiacio. Y flwyddyn nesaf mae hi'n gobeithio manteisio ar brentisiaeth neu hyfforddiant arbenigol sydd ar gael yng Nglan-llyn a chwilio am waith mewn canolfan awyr agored yng Nghymru.

*"Yr hyn sy'n wych am Lan-llyn yw'r awyrgylch hollol Gymraeg, dyna sy'n gwneud i mi eisiau gweithio yno. Fel merch sy'n dod o deulu di-Gymraeg, faswn i'n hoffi diolch yn fawr iawn i'r Urdd am yr help i ddysgu Cymraeg, ac i staff Glan-llyn yn arbennig am fy rhoi ar ben ffordd o ran fy ngyrfa. Dydw i ddim yn gwybod beth fydden i'n ei wneud fel arall!"*

*"Ac i eraill sydd yn dechrau dysgu Cymraeg, peidiwch â rhoi fyny pan mae pethau yn anodd, cariwch ymlaen, does wybod lle wneith y daith fynd a chi!"*

***"Ac i eraill sydd yn dechrau dysgu Cymraeg, peidiwch â rhoi fyny pan mae pethau yn anodd, cariwch ymlaen, does wybod lle wneith y daith fynd a chi!"***



## Cyfarwyddwyr Gweithgareddau Cymunedol
## **Dai Bryer a Siân Rogers**





- Rhyngwladol - Dathlu 10 mlynedd o gynllun gwirfoddoli rhyngwladol yr Urdd ym Mhatagonia ac anfon y grŵp cyntaf erioed o aelodau'r Urdd i Ganolfan Preswyl newydd yr Urdd yn Hwngari, Tŷ Kazbodak Haz.
- 41 o ysgolion ail-iath Cymru ar y Cynllun Cymraeg Bob Dydd sydd yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn dewis astudio Cymraeg ar lefel uwch ac yn rhoi cyfleoedd iddynt siarad yr iaith. Cynhaliwyd Cynhadledd lwyddiannus ar eu cyfer ym mis Chwefror.
- Aelodau Bwrdd Syr IfanC yn rhan o ddatblygu a chefnogi sefydlu Senedd Ieuenctid newydd i Gymru.
- Aelodaeth wedi dyblu ym Mrycheiniog a Maesyfedd gyda sefydlu Swyddog Datblygu yno ar gyfer paratoadau Eisteddfod yr Urdd. Niferoedd cystadlu Eisteddfod a Chwaraeon wedi treblu gyda chynnydd enfawr yn y nifer oedd yn cystadlu mewn Celf a Chrefft.

**Daibryer@urdd.org / 01267 676 642**
**Sianrogers@urdd.org / 01745 818 600**


## Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Datblygu
## **Mali Thomas**



- 53,385 o blant a phobl ifanc yn ymaelodi gyda'r Urdd.
- Lansiwyd fideos hyrwyddo newydd i Wersylloedd yr Urdd a chafwyd ymateb positif iawn iddynt gyda dros 63,000 o sesiynau gwylio ar-lein wedi i fwy na 500 o bobl eu hoffi a'u rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwelwyd hefyd gynnydd yn nifer mynychwyr gwersyll haf Llangrannog gyda nifer yn nodi eu bod wedi gweld y fideos.
- Penodwyd dylunydd mewnol er mwyn cryfhau ein gwaith dylunio ar draws y cylchgronau, marchnata ac i gynyddu cynnwys ar y platfformau digidol.
- Crëwyd cymeriadau newydd i Gylchgronau'r Urdd. Mae'r 'Slebogiaid' yn gymeriadau gwreiddiol, bywiog sy'n byw rhwng tudalennau cylchgrawn Cip. Mae plant wrth eu bodd gyda'r cymeriadau ac yn mwynhau dilyn eu helynt yn y cylchgrawn yn fisol.

**Mali@urdd.org / 02920 635 695**

## Cyfarwyddwr Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau - **Aled Siôn**



- Cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái gyda chystadlu brwd ar draws Cymru yn yr Eisteddfod cylch a sir, gyda thros 15,000 o gystadleuwyr yn cyrraedd y Maes ym Mhencoed.
- Llwyddwyd i greu bwrlwm ar draws dalgylch Eisteddfod 2017 gyda channoedd o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r dalgylch, er mwyn codi arian a hybu'r Eisteddfod, a oedd hefyd yn hwb enfawr i'r iaith Gymraeg yn yr ardal.
- Trefnwyd gweithgareddau niferus hefyd yn nalgylch Eisteddfod Brycheiniog a Maesyfed er mwyn paratoi ar gyfer Eisteddfod 2018, a gynhelir ar safle parhaol y Sioe Fawr yn Llanelwedd.
- Dechreuwyd a pharhawyd â'r gwaith o drefnu Eisteddfodau 2019 yng Nghaerdydd a'r Fro, a Sir Ddinbych 2020.
- Dechreuwyd ar y gwaith o gynllunio a marchnata prosiect diweddaraf Cwmni Theatr Genedlaethol yr Urdd ar y cyd â Chwmni Bara Caws, ar gyfer 2018-2019.

**Eisteddfod@urdd.org / 01678 541 014**

## Cyfarwyddwr Adran Chwaraeon
## **Gary Lewis**



- 36 Prentis yn rhan o waith yr adran yn gweithio ar hyd a lled Cymru yn datblygu clybiau.
- Lansiwyd partneriaeth ar y cyd gydag Undeb Rygbi Cymru i gynnal y digwyddiadau rygbi mwyaf i blant a phobl ifanc yng Nghymru - 7 Bob Ochr Urdd a WRU. Cofrestrwyd 400 o dimoedd - y nifer uchaf erioed.
- Dros 11,000 o blant wedi mynychu clybiau chwaraeon wythnosol.
- Cychwynnodd yr adran gynllun 'Ionawr Iachus' a chymerodd dros 6,000 o blant ran yn y cynllun yn Ne-ddwyrain Cymru. Gwelwyd ysgolion cyfan yn dilyn fideos ffitrwydd yr adran mewn sesiynau arbennig mewn ysgolion. Yn dilyn llwyddiant y cynllun bydd yn cael ei gyflwyno i Gymru gyfan flwyddyn nesaf.

**Gary@urdd.org / 029 22405335**

# Astudiaeth Achos 2
# **Mared Edwards**

**Nid yw Mared Edwards yn un i laesu dwylo. Yn Llysgennad yr Urdd yn Ysgol Bodedern a Chadeirydd Fforwm Ieuenctid Ynys Môn mae hi hefyd yn aelod o Fwrdd Syr IfanC, ac ag uchelgais i fod yn Llywydd yr Urdd ymhen blwyddyn neu ddwy. Yn ychwanegol at hyn mae hi'n aelod o Gôr Ieuenctid Môn yn ogystal â Chlwb Ffermwyr Ifanc Rhosybol.**

Bellach yn 18 oed, cafodd Mared ei geni ym Mangor a'i magu yng Nghemlyn ac yna Porth Swtan yng ngogledd orllewin Ynys Môn. Mynychodd Ysgol Bodedern hyd yn ddiweddar ac mae ganddi gyfnod cyffrous o'i blaen wrth iddi edrych ymlaen at ddechrau ar ei blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Aberystwyth yn astudio gradd mewn Cymraeg a Drama.

*"'Dwi'n aelod o'r Urdd ers yn blentyn ac wedi cystadlu mewn amryw eisteddfodau a chystadlaethau chwaraeon dros y blynyddoedd. Roeddwn yn aelod o Aelwyd yr Ynys am gyfnod lle bûm yn lwcus i gael mynd ar daith i'r Ŵyl Ban Geltaidd yn Iwerddon. Dechreuais wirfoddoli pan yn 14 oed ym mlwyddyn 10 yn yr ysgol, gan fynd ymlaen i swogio yng ngwersylloedd Llangrannog a Glan-llyn droeon, cyn ymuno â Fforwm Ieuenctid Ynys Môn, lle 'dwi bellach yn Gadeirydd."*

*"Fel Llysgennad i'r Urdd yn yr ysgol roeddwn yn rhan o griw fu'n cynnal clybiau amser cinio ac ar ôl ysgol yn ysgolion Bodedern, Amlwch, Llangefni ac Ysgol Gynradd Caergybi. Cefais hefyd y cyfle i staffio teithiau, gan gynnwys un i Baris gyda phlant ysgolion uwchradd Ynys Môn, Eryri a Dinbych. Faswn i'n awgrymu i unrhyw un sy'n cael y cyfle i fod yn Llysgennad, mae'r profiad wedi rhoi gymaint i mi gan gynnwys datblygu fy hyder a fy sgiliau cynnal gweithdai. Diolchaf yn fawr i'r Urdd am hynny."*

Yn 2017 cafodd Mared ei dewis fel un o 25 o bobl ifanc Cymru aeth ar daith arbennig i Batagonia gyda'r Urdd. Yn ôl Mared, *"Roedd mynd ar y daith yn brofiad hollol fythgofiadwy. Yr hyn oedd yn ddiddorol tu hwnt oedd gweld y gwahaniaethau rhwng Cymru a Phatagonia, ond hefyd gallu sylwi ar y tebygrwydd rhwng y ddwy wlad."*

Derbyniodd Mared gyfle i gwblhau sawl cwrs hyfforddiant wrth wirfoddoli gyda'r Urdd ym Môn, gan gynnwys Cymorth Cyntaf, Diogelwch Plant a Hylendid Bwyd. Yn ogystal â hyn, mae pob gwirfoddolwr yn mynychu seremoni wobrwyo flynyddol ac yn derbyn tystysgrif sy'n cofnodi oriau gwirfoddol a weithiwyd gyda'r mudiad.

*"Mae gwirfoddoli gyda'r Urdd nid yn unig yn bleser ac yn hwyl, ond hefyd yn fuddiol iawn o ran ceisio am le mewn prifysgol neu am swydd. Mae'n rhoi cymaint i chi ei gynnwys yn eich Datganiad Personol, ac yn fwy na hynny mae gennych brawf o'ch cyraeddiadau."*

Wedi cwblhau'r cwrs israddedig yn y Brifysgol gobaith Mared yw cael swydd gyda chwmni theatr fel swyddog cyfranogi er mwyn gallu mynd i ysgolion i gynnal gweithdai, yn ogystal â gwneud gwaith marchnata ac ychydig o 'sgwennu creadigol.

*"Fydda i wastad mewn dyled i'r Urdd am yr hyn rydw i wedi ei dderbyn drwy fod yn aelod ac yn wirfoddolwr, rydw i wedi elwa gymaint drwy ymwneud â'r Mudiad. I mi mae'n fudiad amhrisiadwy, a gobeithio y bydd yn parhau i wneud yr hyn y mae yn ei wneud am flynyddoedd mawr i ddod."*



***"Mae gwirfoddoli gyda'r Urdd nid yn unig yn bleser ac yn hwyl, ond hefyd yn fuddiol iawn o ran ceisio am le mewn prifysgol neu am swydd."***

**Mared (chwith) gyda chyd wirfoddolwr yn mynychu un o gyfarfodydd Bwrdd Syr IfanC**



# Astudiaeth Achos 3
# **Jack Perkins**

**Mae Jack yn disgrifio ei brofiad gyda'r Urdd fel 'hwylus a heriol'. Ers dechrau ar ei brentisiaeth rydym wedi gweld Jac yn datblygu'n fawr. Nid yn unig yn ei sgiliau arwain gweithgareddau chwaraeon ond mae nawr yn gyfathrebwr cryf gyda'i sgiliau yn yr iaith Gymraeg wedi gwella'n fawr.**

*"Rwy'n falch iawn o allu ymgymryd â phrentisiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydw i'n gallu teimlo fy iaith yn gwella pob dydd ac mae siarad iaith y Wlad pob dydd yn fy mhlesio'n fawr."*

Un o'r cymoedd ydy Jack, ac fe dyfodd i fyny yn Y Porth gan fynychu Ysgol Gynradd Llwyncelyn ac Ysgol Gyfun Cymer Rhondda. Yna fe aeth Jac at Goleg y Cymoedd i astudio ar gyfer ei lefelau A. Mae Jack wedi mwynhau chwarae rygbi ers oedd yn 7 mlwydd oed pan ddechreuodd chwarae i dîm Aberllechau. Mae wedi chwarae i dimau o dan 16 a 18 y Gleision. Mae nawr yn chwarae i dîm cyntaf Beddau yn y Bencampwriaeth Genedlaethol.

*Wrth astudio yng ngholeg y Cymoedd fe wnaeth Jac ddechrau hyfforddi yng Nghlybiau'r Urdd. Pan sylweddolodd bod yn bosib iddo wneud gwaith tebyg yn llawn amser gyda'r Urdd a chwblhau prentisiaeth ar y un pryd, neidiodd yn syth am y cyfle.*

Mae Jack wrthi'n cwblhau ei flwyddyn gyntaf o hyfforddiant ble fydd yn ennill NVQ Lefel 2 yn Arwain Gweithgareddau. Mae Jack yn gweithio o fewn Ardal Caerffili ac yn mwynhau rhedeg nifer fawr o glybiau chwaraeon i'r Urdd mewn ysgolion ac yn y Gymuned. Mae hefyd yn cydlynu rhaglen 5x60 Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

*"Rwy'n mwynhau galluogi'r plant i gael hwyl a gwella eu sgiliau chwaraeon trwy fynd i'r clybiau dwi'n rhedeg. Mae'n bleser gweld plant yn hapus ac yn gwella."*

Mae Jack yn gobeithio i ymgymryd â blwyddyn arall o hyfforddiant gyda'r Urdd. Mae ganddo hefyd diddordeb mawr mewn mathemateg ac yn gobeithio gallu cyfuno'r ddau faes yn ei yrfa yn y dyfodol.



***"Rwy'n mwynhau galluogi'r plant i gael hwyl a gwella eu sgiliau chwaraeon trwy fynd i'r clybiau dwi'n rhedeg. Mae'n bleser gweld plant yn hapus ac yn gwella."***

## Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Glan-llyn
## Huw Antur Edwards



- Parhau i ddatblygu gweithgareddau newydd i Lan-llyn trwy brynu offer padl fyrddio - mae'r gweithgaredd yma wedi profi i fod yn eithriadol o boblogaidd gan wersyllwyr o bob oed!
- Trefnu'r daith gyntaf o Lan-llyn i wersyll yr Urdd yn Hwngari – roedd hyn yn dilyn misoedd lawer o waith paratoi yn y ganolfan a gwaith trefnu ar gyfer y daith. Bu'r daith yn llwyddiant mawr, a bydd mwy o deithiau i ddilyn.
- Datblygu partneriaethau gyda nifer o golegau a phrifysgolion Cymreig, sydd wedi arwain at nifer o gyrsiau a digwyddiadau yng Nglan-llyn sydd wedi bod o fudd i'r gwersyll ac i'r colegau yn ogystal â'r myfyrwyr eu hunain.
- Cynnal nifer o ddigwyddiadau a chynadleddau newydd yng Nglan-llyn, gan fanteisio ar y gwelliannau a wnaed i'r cyfleusterau yn y gwersyll dros y blynyddoedd. Mae hyn wedi codi proffil Glan-llyn fel canolfan ar gyfer digwyddiadau o bob math, yn arbennig digwyddiadau sy'n ymwneud â phobl ifanc neu'r awyr agored.
- Uwchraddio ac adnewyddu cyfleusterau'r gwersyll - y prif ddatblygiadau oedd uwchraddio'r Pwll Nofio, ond hefyd mi osodwyd pontŵn newydd ger y lanfa yn y llyn er mwyn hwyluso gweithgareddau dŵr, ac mi grëwyd Gweithdy Cynnal a Chadw newydd a Golchdy newydd i hwyluso gwaith y staff o ddydd i ddydd yng Nglan-llyn.

**Huwantur@urdd.org / 01678 541 000**

## Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Caerdydd
## Timothy Edwards



- Dros 11,000 o blant a phobl ifanc wedi cael profiad preswyl a gweithgareddau cyffrous yn y Gwersyll gyda chyfanswm o dros 15,000 o bobl yn defnyddio'r cyfleusterau
- Nifer o bartneriaethau llwyddiannus wedi'u creu gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Pêl-droed Cymru ar achlysur Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr. Bu chwaraewyr pêl-droed ifanc a gwirfoddolwyr yn lletya yn y Gwersyll a oedd yng nghanol bwrlwm Gŵyl Pencampwyr UEFA, y tu allan i'n drysau blaen!
- Cafwyd buddsoddiad sylweddol yn ein gwasanaeth arlwyo ac erbyn hyn mae gennym reolaeth uniongyrchol dros ein cegin. Mae'r datblygiad wedi gweddnewid y gwasanaeth rydym yn ei gynnig i'n hymwelwyr.
- Bron i 3,000 o blant wedi mwynhau ein Jambori blynyddol a chael y profiad o ganu, dawnsio a mwynhau yn un o brif theatrau Ewrop, Theatr Donald Gordon - Canolfan Mileniwm Cymru.

**Caerdydd@urdd.org / 02920 635678**



## Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Llangrannog
## Lowri Jones



- Blwyddyn lwyddiannus tu hwnt ym mhob agwedd ar rediad y Gwersyll, gyda dros 23,000 wedi aros, 52,000 gwersyllwyr/noson, a chyrraedd tu hwnt i'r targed.
- Ardal Antur: Trwy grant CDCF (RCDF) rydym wedi trawsnewid ardal antur y Gwersyll, drwy gyflwyno gweithgareddau newydd sef weiren zip, gweithgaredd naid, wal ddringo, ac abseilio.
- Llethr Sgïo: Roedd agor y Llethr Sgïo yn 1989 yn garreg filltir bwysig i'r Gwersyll, a bellach rydym, trwy gymorth Chwaraeon Cymru, wedi uwchraddio'r llethr a chreu adnodd cyffrous newydd i ieuenctid Cymru - y llethr Steil Rhydd Cyntaf yng Nghymru.
- Staff Haf: Rydym yn ailymweld â'r hen draddodiad o Staff Haf, ac rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael 4 'Staff Haf' gwych sy'n sicrhau rhediad esmwyth y Gwersyll pan rydym ar ein prysuraf.

**Lowri@urdd.org / 01239 652 140**



# Astudiaeth Achos 4
## Ysgol Pen y Dre, Merthyr Tudful

**Bum mlynedd yn ôl, yr unig gysylltiad oedd yn bodoli rhwng yr Urdd ac Ysgol Pen y Dre oedd grŵp bychan o ddisgyblion fyddai'n mynychu gwersyll Llangrannog ar gyrsiau. Erbyn 2018, mae oddeutu 200 o ddisgyblion a darpar-ddisgyblion yr ysgol yn mynd i Langrannog yn flynyddol, mae'r ysgol wedi ennill sawl medal Eisteddfodol, wedi cystadlu yn chwaraeon yr Urdd, yn rhan o gynllun Cymraeg Bob Dydd yr Urdd ac wedi mynd â grwpiau i wersyll Glan-llyn.**

Ysgol cyfrwng Saesneg i oed 11-16 yw Ysgol Pen y Dre sy'n darparu addysg uwchradd i 550 o bobl ifanc o Gefn Coed, Dowlais, Galon Uchaf, Gurnos, Pantysgallog, Penydarren a Threfechan ym Merthyr Tudful.

Mr Mark Morgan yw Pennaeth Adran y Gymraeg yn yr ysgol. Yn ddysgwr Cymraeg profiadol, mae wedi gweithio'n galed iawn dros y pum mlynedd diwethaf i ddatblygu ymwybyddiaeth a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r disgyblion.

*"Pum mlynedd yn ôl dim ond ryw 8-10 o blant fyddai'n mynd ar y daith i wersyll Llangrannog, ond erbyn hyn rydym yn cydweithio gyda'r clwstwr ysgolion cynradd yn ogystal â disgyblion blwyddyn 7 ac 8 er mwyn datblygu'r ymweliad â'r gwersyll fel gweithgaredd pontio. Bydd oddeutu 200 o blant o flwyddyn 6 hyd 8 yn derbyn cymaint â phosib o Gymraeg tra eu bod yno er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r iaith, ac i ddangos ei bod yn iaith y gellir ei defnyddio bob dydd. Mae'r gwahaniaeth yn hyder y plant yn defnyddio'r iaith wedi dim ond tridiau yn un o wersylloedd yr Urdd wedi bod yn drawiadol, a gallwn ni ddim diolch digon i'r Urdd am hynny."*

*"Yn amlach na pheidio, gweithgareddau'r Urdd yw'r unig gyfle y mae'r disgyblion yn ei gael i ddefnyddio eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Erbyn hyn mae'r ysgol yn gwneud defnydd llawer gwell o'r gwasanaethau y mae'r mudiad yn gallu eu cynnig i ni, gan gynnwys yr Eisteddfod, gwersylloedd a chwaraeon, ac rydym yn bwriadu datblygu hyn ymhellach i'r dyfodol."*

*"Cyn 2014 doedd Ysgol Pen y Dre ddim yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd o gwbl. Cawsom gymaint o hwyl ar gystadlu yn Eisteddfod y Bala'r flwyddyn honno, rydym bellach wedi sefydlu Eisteddfod glwstwr sydd yn ei thro yn bwydo'r eisteddfod gylch ac yn y blaen, menter sy'n tyfu'n flynyddol. Y llynedd aeth ein grŵp llefaru blwyddyn 10-13 drwodd i'r genedlaethol yn erbyn ysgolion iaith gyntaf, canlyniad fu'n wych ar gyfer hyder y disgyblion yn eu Cymraeg."*

Y mae Ysgol Pen y Dre yn un o'r ysgolion sydd wedi manteisio ar y gefnogaeth a gynigir gan gynllun Cymraeg Bob Dydd yr Urdd. Gan nad yw hi'n ysgol mewn ardal gyfoethog tu hwnt, ac nad oes llawer iawn o Gymraeg i'w chlywed ar y stryd, mae hi'n anodd rhoi cyfleoedd i blant i weld a phrofi'r iaith y tu allan i furiau dosbarth yr ysgol. Gyda chymorth yr Urdd, y mae'r ysgol wedi llwyddo i wneud hyn ar sawl achlysur gan gynnwys cynorthwyo i ddanfon disgyblion i wersylloedd yr Urdd.

*"Mae'r ymweliadau â'r gwersylloedd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i hyder y plant yn defnyddio eu Cymraeg, yn ogystal â hybu eu synnwyr o Gymreictod, a diwylliant Cymru. Yn fwy nag unrhyw beth mae wedi dangos i'r plant bod yr iaith yn iaith bywyd bob dydd, ac nid dim ond i'r dosbarth. Canlyniad uniongyrchol hyn yw ein bod wedi gweld canlyniadau arholiadau'r disgyblion yn cynyddu a'r nifer sydd yn symud ymlaen i wneud Lefel A Cymraeg yng Ngholeg y Cymoedd wedi cynyddu."*

*"Mae pawb yn gwybod beth a phwy yw'r Urdd bellach, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n rhan o'r gweithgareddau. Mae ein diolch yn fawr i'r Urdd am ein helpu ac am gynnig ffordd i mewn i'r iaith Gymraeg i bobl ifanc Ysgol Pen y Dre."*

***"Mae'r ymweliadau â'r gwersylloedd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i hyder y plant yn defnyddio eu Cymraeg"***






# Astudiaeth Achos 5
## Manon Ogwen Parry

**Manon Ogwen Parry, cantores addawol o Benarth, Bro Morgannwg oedd enillydd Ysgoloriaeth yr Eisteddfod eleni. Dyfernir yr ysgoloriaeth i'r cystadleuydd mwyaf addawol yng nghategori oed blwyddyn 10 ac o dan 19 oed. Manon hefyd enillodd Ysgoloriaeth Olwen Phillips eleni i'r unawdydd mwyaf addawol rhwng 15 ac 19 oed.**

Yn gyn-ddisgybl o Ysgol Pen-y-garth ac Ysgol Gyfun Bro Morgannwg mae Manon, sy'n 18 oed, bellach newydd ddechrau astudio yn y Guildhall School of Music and Drama yn Llundain.

*"Dyfes i lan mewn cartref creadigol a cherddorol iawn gyda mam yn gantores a dad yn actor, ac roeddwn i wastad yn joio canu, ond wnes i ddim ystyried fydden i'n gallu ei wneud fel gyrfa. Cefais geisiadau i wneud cyngherddau yn y Saesneg wedi i bobl fy ngweld yn cystadlu, ac yn 14 oed fe wnes i ennill rownd gyntaf cystadleuaeth Cerddor Ifanc y Flwyddyn y Rotary. Drwy hynny cefais athrawes ganu a alluogodd fi i ganolbwyntio ar y 'genre' clasurol a dysgu techneg. Buais yn canu am rai blynyddoedd mewn cyngherddau gyda chorau meibion megis Pendyrus, Treorci, Pontardulais â'r Barri, ond drwy'r Urdd cefais y cyfle gorau i ganu drwy gyfrwng y Gymraeg."*

Bu Manon yn aelod o'r Urdd ers yn blentyn bach, gan ddechrau cystadlu pan yn 5 oed mewn corau ac yna yn actio mewn ymgomau ac ati. Bu hefyd yn aelod o dîm pêl-rwyd yr Urdd, ac yn mwynhau droeon ar deithiau i Wersylloedd Llangrannog a Glan-llyn, gan gynnwys cyfnod fel swog. Bu'n cystadlu'n flynyddol ar y canu unigol yn Eisteddfod yr Urdd heb lwyddo i ennill y wobr gyntaf.

*"Roeddwn i wrth fy modd yn gwireddu fy uchelgais eleni, sef ennill y wobr gyntaf am yr unawd wedi'r holl flynyddoedd o geisio, ac yn fy mlwyddyn olaf yn yr ysgol! Roedd yn brofiad arbennig iawn, ac roedd ennill Ysgoloriaeth Eisteddfod yr Urdd hefyd wir yn goron ar ben y cyfan".*

Disgrifia Manon ei phrofiadau gyda'r Urdd fel rhai hynod fythgofiadwy.

*"Mae'n rhoi cyfle i uno ysgolion, ac i Gymry allu joio gyda'i gilydd tra'n hybu'r iaith Gymraeg a rhoi cyfle i bobl ifanc ddeall bod cyfleoedd i'w cael drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg mewn bob math o feysydd gwahanol."*

Uchelgais Manon yw i ddatblygu gyrfa berfformio ar y llwyfan ryngwladol, gan ganu ar lwyfannau tai opera ar draws y byd, yn ogystal â datblygu cyfleoedd yn y byd actio. Mae hi'n diolch o waelod calon i'r Urdd am roi iddi lwyfan enfawr i berfformio ac arddangos ei thalentau.

*"Rydw i wedi cael cynnig nifer o swyddi canu o ganlyniad i berfformio a chystadlu ar lwyfan cenedlaethol Eisteddfod yr Urdd, sydd wedi datblygu fy hyder yn sylweddol a fy ngwneud yn berfformiwr gwell. Rwyt ti'n dysgu llawer o gael 'cam' mewn cystadleuaeth, dyna sut rwyt ti'n cael yr hwb yna i weithio'n galed ac i wneud yn well y tro nesaf. Mae'r profiad o gystadlu yn yr Urdd yn un agos iawn a dwys, rwyt ti wir eisiau gwneud yn dda nid yn unig i ti dy hun, ond er mwyn dy ysgol hefyd."*

*"Taswn i'n gallu rhoi gair o gyngor i bobl ifanc eraill faswn i'n annog pawb i gymryd pob cyfle a ddaw, ac i ddweud 'ie' i fwy o bethau. Peidiwch bod ofn bod yn anghyfforddus, gwthiwch eich hun ac fe synnwch chi be allwch chi ei gyflawni."*

***"Roedd yn brofiad arbennig iawn, ac roedd ennill Ysgoloriaeth Eisteddfod yr Urdd hefyd wir yn goron ar ben y cyfan".***



# Adroddiad y Trysorydd
# Rheon Tomos



Rwyf yn hynod o falch o allu adrodd fod canlyniad ariannol 2017-18 yn un ffafriol gyda'r Mudiad yn perfformio ychydig yn well na'r targed ariannol a osodwyd gan y Bwrdd Busnes a'r Ymddiriedolwyr. Fe welwch o'r adroddiad hwn fod gwariant ar weithgaredd wedi cynyddu eleni i ychydig dros £10m (£9.2m yn 2016-17) - hyn yn adlewyrchu twf mewn gweithgaredd ar draws y Mudiad. Mae'r cynnydd mewn incwm i £10.2m (£10m yn 2016-17) yn adlewyrchu llwyddiant ein swyddogion yn denu grantiau ac incwm ychwanegol. Ni fyddai canlyniad fel hyn yn bosib oni bai am ymroddiad clodwiw staff yr Urdd yn ogystal â'r holl wirfoddolwyr o bob cwr o Gymru sydd yn ein cefnogi.

Mae'r safon o ddarpariaeth yn y gwersylloedd, gwaith maes, chwaraeon a'r Eisteddfod yn mynd o nerth i nerth a chafwyd gweithgareddau a digwyddiadau hynod o lwyddiannus dros y cyfnod. Rhaid hefyd talu teyrnged i'r staff cynorthwyol ar draws y Mudiad sydd yn cefnogi ein hymdrechion i gynnal ystod mor eang o weithgareddau.

Hoffwn ddiolch i garedigion y Mudiad unwaith eto eleni am eu cefnogaeth trwy roddion a chymynroddion. Mae hyn yn ein galluogi fel Mudiad i gynyddu'r gronfa wrth gefn ac i gynllunio tua'r dyfodol. Fe soniais yn adroddiad 2016-17 fod yr ymddiriedolwyr wedi clustnodi £1m er mwyn i benaethiaid Llangrannog a Glan-Llyn roi cynlluniau datblygu yn eu lle i wneud gwaith sylweddol i foderneiddio a gwella'r cyfleusterau. Mae'r gwaith yma wedi cychwyn ac rydym yn rhagweld cwblhau ein cynlluniau yn ystod 2019-20. Mae perfformiad cadarnhaol ein gwersylloedd eleni yn adlewyrchiad clir o boblogrwydd ein darpariaeth ac yn rhoi hyder i'r Ymddiriedolwyr o bwysigrwydd y buddsoddiad.

Rydym fel elusen wedi gosod nod o gadw digon o arian wrth gefn i dalu am 6 mis o weithgaredd pe byddai amgylchiadau yn achosi gostyngiad sylweddol mewn incwm. Mae'r arian wrth gefn yn cael ei fuddsoddi ac, er y gwelwyd dirywiad bach yn y gwerth (ychydig o dan £10,000) yn y flwyddyn, da yw gallu adrodd fod cynnydd wedi digwydd ers hynny. Mae'r cynnydd yma, yn ogystal â pherfformiad cadarnhaol y flwyddyn, yn golygu ein bod yn nesáu at ein targed gwreiddiol hyd yn oed wedi clustnodi symiau sylweddol ar gyfer datblygiadau.

Fel Trysorydd y Mudiad hoffwn ddiolch am gefnogaeth barod fy nghyd-ymddiriedolwyr ac ymroddiad aelodau'r Bwrdd Busnes. Diolch hefyd i'r holl gyrff cyhoeddus am eu cefnogaeth mewn amrywiol ffyrdd ac i holl noddwyr a charedigion yr Urdd am eu haelioni. Rydym mewn cyfnod prysur a chyffrous ond trwy fonitro ein gwariant yn gyson edrychwn ymlaen yn hyderus y medrwn roi hwb pellach i'r ddarpariaeth er mwyn cynnal amcanion craidd yr Urdd.

# Noddwyr a Phartneriaid 2017 – 2018

Rydym yn chwilio yn barhaus am noddwyr newydd sy'n gallu ein cefnogi drwy gymorth ymarferol neu ariannol. Mae'r buddiannau y gall yr Urdd eu cynnig yn cynnwys sylw yn ein digwyddiadau a brandio ar ddeunyddiau amrywiol.

Diolchwn i'r sefydliadau canlynol a gefnogodd waith yr Urdd yn ystod y flwyddyn:

**ACT**
**ALS**
**BBC Radio Cymru**
**Bridge FM**
**BT**
**Bwydydd Castell Howell**
**Cartrefi Cymunedol Gwynedd**
**Celtic Prop Hire**
**Chwaraeon Cymru**
**Coleg Castell Nedd Port Talbot**
**Coleg Pen-y-Bont**
**Cyngor Sir Pen-y-Bont**
**Cyngor Tref Maesteg**
**Cyngor Tref Pen-y-Bont**
**Cyngor Tref Penycoed**
**Cyngor y Celfyddydau**
**Darganfod Addysgu**
**Edwards Coaches**
**Gravells**
**Gwobr Goffa Gari**
**Jones a Whitehead**
**Llywodraeth Cymru**
**Marigolds**
**Prifysgol Abertawe**
**Prifysgol Aberystwyth**
**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**
**RDCF**
**Royal Mint Experience**
**S4C**
**Telescop**
**UCAC**
**Undeb Rygbi Cymru**
**Valleys to Coast Housing Association**
**Western Power**
**Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**
**Ymddiredolaeth Hodge**
**Ymddiredolaeth Ivor ac Aeres Evans**
**Ymddiredolaeth Pantyfedwen**

# Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
## Hywel Williams



# Ffynonellau Incwm Allanol

Fel Mudiad 'rydym yn ymdrechu ac yn llwyddo i sicrhau cefnogaeth ariannol i waith yr Urdd gan amrywiaeth eang o ffynonellau. 'Rydym yn hynod ddiolchgar i bob un o'r ffrydiau ariannu hyn – boed yn gyrff cenedlaethol neu'n unigolion hael. Heb eu cefnogaeth hwy, ni fyddai modd i'r Urdd gynnig yr ystod eang o weithgareddau a phrofiadau unigryw a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

| Cynigwyd y prif grantiau canlynol | £ |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru - Hywyddo'r Gymraeg | 702,184 |
| Llywodraeth Cymru - Cynllun Grantiau Mudiadau Ieuenctid | 103,883 |
| Llywodraeth Cymru - Prosiect Cymraeg Ail Iaith | 89,137 |
| Llywodraeth Cymru - Hybu Defnydd y Gymraeg | 39,500 |
| Llywodraeth Cymru - Cynllun Prentisiaethau | 155,900 |
| Llywodraeth Cymru - Brandio Ieuenctid a Chymuned | 15,000 |
| Llywodraeth Cymru - Gemau Cymru | 55,000 |
| Chwaraeon Cymru - Datblygu Chwaraeon Cenedlaethol | 250,181 |
| Chwaraeon Cymru - Gemau Cymru | 60,000 |
| Undeb Rygbi Cymru | 20,000 |
| Menter Caerdydd a Bro Morgannwg | 26,237 |
| Menter Iaith Caerffili | 5,000 |
| Cyngor Llyfrau - Grant Cylchgronau | 26,000 |
| Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr | 24,176 |

| Grantiau i'r Eisteddfod a'r Celfyddydau | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 170,000 |
| Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru | 135,470 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru - Cwmni Theatr yr Urdd | 30,000 |

| Awdurdodau Lleol - gan gynnwys grantiau cefnogi swyddogion ieuenctid | £ |
|---|---|
| Dinbych | 20,000 |
| Gwynedd | 35,960 |
| Môn (gan gynnwys Ymddiriedolaeth Môn) | 39,117 |
| Caerdydd | 30,000 |
| Fflint | 32,000 |
| Caerffili | 15,000 |
| Powys | 19,328 |
| Bro Morgannwg | 20,000 |
| Conwy | 7,000 |
| Wrecsam | 25,583 |
| Caerfyrddin | 10,000 |
| Casnewydd | 7,000 |
| Ceredigion | 7,500 |
| Blaenau Gwent | 6,000 |
| Penfro | 4,000 |
| Mynwy | 5,833 |
| Merthyr | 15,000 |

| Prif Gymynrhoddion | |
|---|---|
| Mr Tony Ralph Neish Edwards, Caerfaddon | 18,780 |
| Mr Thomas Eurgain Davies, Llundain/Llandudoch (gweddill stad) | 12,104 |
| Mrs Mair Jones Griffiths, Cwmtwrch Uchaf | 10,500 |
| Ystad Dr Dewi Davies, Farnsfield/Llangeler | 10,000 |
| Ystad Mr Glyn Watkin Hughes, Caergybi | 5,258 |
| Mr Struan James-Robertson, Edern, Pen Llŷn | 5,000 |
| Mr Clifford Pike, Tonteg | 4,000 |

## Gwybodaeth Ariannol
## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Mae'r cyfrifon yma yn grynodeb o wybodaeth a dynnwyd oddi wrth y datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol llawn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni, ar 16 Tachwedd 2018 ac maent wedi'u hanfon i'r Tŷ'r Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau. Archwiliwyd y cyfrifon llawn gan Dunn & Ellis Cyf., Cyfrifwyr Siartredig a rhoddwyd adroddiad diamod arnynt.

Mae'n bosib nad yw'r crynodeb ariannol yn rhoi gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth lawn ar faterion ariannol yr elusen. Felly, am wybodaeth bellach, dylid ymgynghori â'r cyfrifon statudol llawn; Adroddiad yr Archwilwyr ar y cyfrifon hynny, ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Ceir copïau o'r rhain oddi wrth y cwmni.

W. Gwyn Davies


Llofnodwyd ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

## Gwybodaeth Ariannol
## Cwmni Urdd Gobaith Cymru
## Mantolen 31 March 2018

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| **Asedion Sefydlog** | | |
| Eiddo Sylweddol | 13,883,215 | 13,398,336 |
| Buddsoddion | 2,988,528 | 3,000,981 |
| | **16,871,743** | **16,399,317** |
| **Asedion Cyfredol** | | |
| Stoc | 46,186 | 40,714 |
| Dyledwyr | 779,181 | 837,512 |
| Buddsoddion | 1,165,852 | 1,504,063 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 1,183,458 | 970,367 |
| | **3,174,677** | **3,352,656** |
| **Credydwyr** | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (1,416,137) | (1,259,304) |
| **Asedion cyfredol net** | **1,758,540** | **2,093,352** |
| **Asedion llai rhwymedigaethau cyfredol** | **18,630,283** | **18,492,669** |
| **Credydwyr** | | |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | | |
| | **18,630,283** | **18,492,669** |
| **Cronfeydd** | | |
| Cronfeydd cyfyng | 2,215,463 | 2,556,492 |
| Cronfeydd Rhydd | 14,611,888 | 14,138,531 |
| Cronfa ail-brisio buddsoddion | 1,661,661 | 1,653,245 |
| Cronfa ail-brisio eiddo | (121,933) | (121,933) |
| Cronfeydd gwaddol | 263,204 | 266,334 |
| **Cronfeydd** | **18,630,283** | **18,492,669** |

# Gwybodaeth Ariannol
## Cwmni Urdd Gobaith Cymru
## Incwm 2017/2018


| Incwm: | | 2018 | 2017 |
|---|---|---|---|
| 1) | Llangrannog a Phentre Ifan | 2,985,026 | 2,892,808 |
| 2) | Glan-llyn | 1,597,747 | 1,578,618 |
| 3) | Caerdydd | 876,986 | 731,921 |
| 4) | Incwm o fuddsoddion | 69,275 | 66,817 |
| 5) | Eisteddfod (ddim yn cynnwys grantiau) | 1,322,092 | 1,321,352 |
| 6) | Cylchgronau | 61,765 | 56,666 |
| 7) | Aelodaeth | 403,218 | 401,023 |
| 8) | Rhoddion a chymynroddion | 186,460 | 665,403 |
| 9) | Amrywiol | 96,589 | 104,343 |
| 10) | Grantiau (yn cynnwys chwaraeon ac eisteddfod) | 2,205,930 | 1,922,647 |
| 11) | Chwaraeon | 353,928 | 279,564 |
| **Cyfanswm Incwm 2016/2017:** | | **10,159,016** | **10,021,162** |






# Gwybodaeth Ariannol
## Cwmni Urdd Gobaith Cymru
## Gwariant 2017/2018

| Gwariant: | | 2018 | 2017 |
|---|---|---|---|
| 1) | Llangrannog a Phentre Ifan | 2,549,949 | 2,279,007 |
| 2) | Glan-llyn | 1,688,523 | 1,670,693 |
| 3) | Caerdydd | 657,434 | 636,365 |
| 4) | Costau elusennol | 1,725,095 | 1,569,352 |
| 5) | Eisteddfod | 1,985,447 | 1,885,083 |
| 6) | Cylchgronau | 150,691 | 107,540 |
| 7) | Costau trefn lywodraethol | 107,809 | 114,188 |
| 8) | Costau codi arian a chyhoeddusrwydd | 52,499 | 44,254 |
| 9) | Chwaraeon | 1,093,961 | 878,599 |
| **Cyfanswm Gwariant 2016/2017:** | | **10,011,408** | **9,185,081** |



# **Gwybodaeth Ariannol**
# Cwmni Urdd Gobaith Cymru
# Canlyniad Y Flwyddyn

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Mewn lif net o adnoddau am y flwyddyn | 147,608 | 836,081 |
| Gweddill/(Diffyg) ar werthu asedau a buddsoddion | -18,411 | 14,227 |
| | **129,197** | **850,308** |
| Cynnydd/(Lleihad) ar ail-brisio buddsoddion – heb eu realeiddio | 8,417 | 326,426 |
| Cynnydd/(Lleihad) ar ail-brisio eiddo – heb eu realeiddio | 0 | 15,427 |
| **Cynnydd/(Lleihad) net mewn cronfeydd** | **137,614** | **1,192,161** |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill 2017 | 18,492,669 | 17,300,508 |
| Dad-wneud amhariad hanesyddol | - | - |
| **Cronfeydd ar 31 Mawrth 2018** | **18,630,283** | **18,492,669** |

**Mae'r cyfanswm incwm yn cynnwys £8,625,376 o gronfeydd rhydd, £1,523,530 o gronfeydd cyfyng a £10,110 o gronfeydd gwaddol. Mae'r cynnydd net am y flwyddyn o £137,614 (ar ôl trosglwyddiadau rhwng cronfeydd) yn cynnwys gweddill o £481,773 ar gronfeydd rhydd a diffyg o £344,159 ar gronfeydd cyfyng a gwaddol.**